Cyngor Celfyddydau Cymru

Polisi Preifatrwydd

Awst 2010

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Noddir gan
Lywodraeth Cynulliad Cymru
Sponsored by
Welsh Assembly Government

Supported by
The National Lottery®
Cefnogwyd gan
Y Loteri Genedlaethol

Polisi Preifatrwydd Cyngor Celfyddydau Cymru

Datganiad Polisi Preifatrwydd

Mae'r polisi hwn, a gymeradwyir gan y Prif Weithredwr a'r Uwch Dîm Rheoli, yn amlinellu'r modd y mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn ymdrin â'r wybodaeth a ddysgwn amdanoch pan fyddwch yn ymweld â'n gwefan. Rhyddhawyd y polisi hwn ym mis Ebrill 2005, a dyma'r adolygiad diweddaraf yn Awst 2010.

Mae diogelu preifatrwydd a data personol ein hymwelwyr yn hynod bwysig inni. Mae diogelu preifatrwydd a data personol yn rhan bwysig o'r modd yr ydym yn creu, trefnu ac yn gweithredu ein gweithgareddau ar-lein ac off-lein.

Mae'r camau penodol a nodir yn y datganiad preifatrwydd hwn yn berthnasol i wefan Cyngor Celfyddydau Cymru yn ogystal â gwefan Celfyddydau Cymru Rhyngwladol a Noson Allan.

Gwybodaeth am ein Sefydliad

Cyngor Celfyddydau Cymru sy'n gyfrifol am ariannu a datblygu'r celfyddydau yng Nghymru. Wedi i'r Ysgrifennydd Gwladol drosglwyddo'r cyfrifoldeb daeth yn atebol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 1 Gorffennaf 1998. Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n dosbarthu arian i'r Cyngor ariannu'r celfyddydau yng Nghymru ac mae Cyngor Celfyddydau Cymru, fel Corff a Noddir gan Lywodraeth y Cynulliad, yn atebol i Lywodraeth Cynulliad Cymru am y modd y caiff yr arian hwn ei wario.

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn un o ddosbarthwyr arian y Loteri ar gyfer y celfyddydau yng Nghymru yn ogystal. Dyrennir arian y Loteri Genedlaethol i'r Cyngor gan yr Adran Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn Llundain.

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn gweithio gyda llawer o bartneriaid er mwyn cyflawni ei gyfrifoldeb cendlaethol i ddatblygu ac ariannu'r celfyddydau yng Nghymru ac i gynghori Llywodraeth Cynulliad Cymru ynglŷn â materion sy'n gysylltiedig â'r celfyddydau. Wrth gyflawni ei nodau ar gyfer y celfyddydau yng Nghymru mae'r Cyngor yn ddyledus i'w bartneriaid yn y celfyddydau proffesiynol, cymunedol a gwirfoddol, awdurdodau lleol a sectorau eraill am eu cydweithrediad a'u cyfraniadau hanfodol.

Nodir nodau ac amcanion Cyngor Celfyddydau Cymru yn ei Siarter.

Rheolir Cyngor Celfyddydau Cymru gan ei Gyngor a benodir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac sy'n cyfarfod yn rheolaidd bob blwyddyn.

Uwch Dîm Rheoli Cyngor Celfyddydau Cymru sy'n gyfrifol am y gwaith o redeg y Cyngor o ddydd i ddydd.

Lleolir staff y Cyngor mewn swyddfeydd yng Nghaerdydd, Bae Colwyn a Chaerfyrddin.

Plas Bute
Caerdydd
CF10 5AL

Ffôn: 0845 8734 900
Ffacs: 029 2044 1400

36 Rhodfa'r Tywysog
Bae Colwyn
LL29 8LA

Ffôn: 01492 533 440
Ffacs: 01492 533 677

6 Gardd Llydaw
Lôn Jackson
Caerfyrddin
SA31 1QD

Ffôn: 01267 234 248
Ffacs: 01267 233 084

Casglu Data a Manylu am y Pwrpas

Yn gyffredinol gallwch bori ar wefan Cyngor Celfyddydau Cymru heb ddatgelu unrhyw wybodaeth bersonol amdanoch eich hun.

Mae modd i chi roi gwybodaeth a gymeradwyir gennym ar ein gwefan er mwyn i eraill ei darllen. Pan wnewch hynny, gall ymwelwyr eraill gasglu'r data a gyflwynwyd gennych.

Nid ydym yn logio data bersonol yn awtomatig nac yn cysylltu gwybodaeth a logiwyd yn awtomatig trwy ryw fodd arall gyda data personol am unigolion penodol.

Rydym yn defnyddio 'cookies' a fydd yn storio data personol. Elfen o ddata y gall gwefan ei anfon i'ch porwr yw 'cookie', a gellir wedyn ei gadw ar eich dreif caled.

Rydym yn casglu'r data personol a roddir gennych o'ch gwirfodd tra byddwch yn defnyddio ein gwasanaethau.

Nid ydym yn casglu gwybodaeth am ein hymwelwyr o ffynonellau eraill, trwy gofnodion neu oddi wrth gyrff cyhoeddus neu sefydliadau preifat.

Gallwn gasglu a defnyddio data personol ar gyfer llunio rhestrau postio. Os ydym am ddefnyddio eich data personol at ddiben amgenach, rydym yn rhoi cyfle i chi gytuno â hyn trwy nodi hynny ar y wefan lle cesglir y data personol.

Cookies

Fel a nodwyd uchod, weithiau byddwn yn casglu gwybodaeth anhysbys o'r ymweliadau a wneir â'n gwefan i'n galluogi i ddarparu gwell gwasanaeth. Er enghraifft gallwn gadw cofnod sut y bydd pobl yn cyrraedd ein gwefan ac hefyd mesur gweithgaredd ymwelydd ar y wefan. Gwnawn hynny mewn modd sy'n sicrhau bod y wybodaeth yn anhysbys.

Defnyddiwn y wybodaeth a gasglwn i fesur nifer yr ymwelwyr i wahanol rannau'r wefan, ac i'n galluogi i wneud ein gwefan yn fwy defnyddiol i ymwelwyr. Golyga hyn ein bod yn dadansoddi'r logiau hyn yn achlysurol er mwyn mesur y traffig trwy ein gwenyddion, y nifer o dudalennau yr ymwelwyd â nhw a lefel y galw am dudalennau a phynciau o ddiddordeb. Gellir cadw'r cofnodion am gyfnod amhenodol a'u defnyddio unrhyw bryd ac mewn unrhyw fodd i sicrhau diogelwch a dilysrwydd y data ar ein gwenyddion.

Dewis yr Ymwelydd

Cewch ddewis p'un ai'r ydych am gofrestru i ddefnyddio'r wefan neu beidio. Gallwch barhau i ddefnyddio gwefan y Cyngor hyd yn oed os dewisiwch beidio â chofrestru neu ddarparu gwybodaeth bersonol.

Cyfrinachedd / Diogelwch

Bwriadwn ddiogelu safon a dilysrwydd eich gwybodaeth bersonol. Mae technolegau a pholisïau diogelwch wedi'u rhoi ar waith gan Gyngor Celfyddydau Cymru i ddiogelu data personol a storiwyd gan ein defnyddwyr rhag mynediad di-awdurdod, defnydd amhriodol, newid, difetha anghyfreithlon neu ddamweiniol a cholled ddamweiniol. Byddwn yn parhau i wella ein gweithdrefnau diogelwch wrth i dechnoleg newydd ddod i'n rhan.

Mae'n rhaid i gyflogeion a phroseswyr Cyngor Celfyddydau Cymru sydd yn gallu cael gafael ar ddata personol barchu preifatrwydd ein hymwelwyr a chyfrinachedd eu data personol.

Cydymffurfiad Preifatrwydd

Mae ein Polisi Preifatrwydd yn cydymffurfio gyda'r ddeddfwriaeth ganlynol:

- Deddf Diogelu Data
- Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000
- Deddf Cofnodion Cyhoeddus 1958 ac 1967

Cael Gafael ar Eich Data Personol

Gallwch ofyn inni os ydym yn cadw data personol amdanoch a gallwch hefyd ofyn am gopi o'r data personol hwnnw. Cyn anfon unrhyw ddata personol atoch byddwn yn gofyn am brawf o'ch hunaniaeth. Oni allwch ddarparu prawf o'r fath, cedwir yr hawl i wrthod anfon eich data personol atoch.

Gwneir pob ymdrech i ymateb yn amserol i'ch ceisiadau neu i gywiro unrhyw gamgymeriadau yn eich gwybodaeth bersonol. Gallwch ofyn inni ddiléu neu gywiro'r wybodaeth bersonol a gedwir amdanoch ar unrhyw adeg. Cyfeiriwch ymholiad o'r fath at y manylion cyswllt yn yr adran Cefnogi Preifatrwydd.

Cefnogi Preifatrwydd

Os oes gennych unrhyw gwestiwn ynglŷn â'r datganiad preifatrwydd hwn neu os hoffech wybod pa ddata personol a gedwir amdanoch, cysylltwch â:

Rheolwr Cydymffurfiaeth a Gwybodaeth
Cyngor Celfyddydau Cymru ,
Plas Bute,
Caerdydd,
CF10 5AL

gwybodaeth@celfcymru.org.uk